Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn

Llansawel Crescent
Llansawel
Castell Nedd
SA11 2UN

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 292 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 198 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 55 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 24.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 4.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 17.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae ymdeimlad cryf o berthyn yn bodoli ymhlith disgyblion a staff Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle’r Ynn, sy’n cydweithio’n agos i greu cymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae perthnasoedd cadarnhaol a pharchus rhwng staff a disgyblion yn gryfder amlwg. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac ymddygiad da iawn o oedran cynnar.

Mae’r pennaeth gweithredol, gyda chefnogaeth effeithiol yr uwch dîm arwain, yn darparu arweinyddiaeth ystyriol sy’n sefydlu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae ei gweledigaeth greadigol a Chymreig wedi’i rhannu’n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol ac yn treiddio’n gadarn i bob agwedd ar ei gwaith.

Mae’r ysgol yn hafan ddiogel a chefnogol, lle mae staff yn adnabod anghenion disgyblion, teuluoedd a’r gymuned yn drylwyr ac yn sicrhau bod gweithgareddau’n hygyrch i bawb. Mae partneriaethau cryf â rhieni a’r gymuned yn cyfoethogi profiadau dysgu ac yn cefnogi lles disgyblion yn hynod effeithiol.

Dros amser, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod dda o fedrau o’u mannau cychwyn. Mae staff yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol yn gyson ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at eu dysgu a gwella eu gwaith yn fwriadus.

Mae’r cwricwlwm yn eang, cyfoethog a pherthnasol, ac mae athrawon yn darparu profiadau diddorol sy’n ennyn chwilfrydedd disgyblion ac yn adlewyrchu natur yr ardal leol a Chymru yn llwyddiannus. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymru yn llwyddiannus, gan feithrin balchder ymhlith disgyblion yn eu treftadaeth. Mae’r profiadau a gynllunnir ar gyfer datblygu medrau digidol yn rhinwedd nodedig o’r ddarpariaeth, gyda disgyblion yn defnyddio technoleg yn hyderus mewn cyd-destunau ystyrlon.

Mae’r corff llywodraethol yn ymroddgar a chefnogol i’r ysgol. Mae trefniadau hunanwerthuso cadarn yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth cadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Er bod arweinwyr yn gweithio’n barhaus i gefnogi presenoldeb, mae absenoldeb ychydig o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy uchel.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Gwella presenoldeb disgyblion sy’n absennol o’r ysgol yn barhaus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth gweithredol, gyda chefnogaeth gadarn yr uwch dîm arwain, yn darparu arweinyddiaeth ystyriol ac yn llywio cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth greadigol a Chymreig, sydd wedi'i rhannu'n effeithiol gyda staff, disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae ymdeimlad cryf o berthyn i 'Deulu'r Tyle', gyda staff a disgyblion yn cydweithio'n agos i wireddu dyhead yr ysgol i ddatblygu cymuned ddysgu hapus a chynhwysol sy'n 'Herio heddiw, llwyddo yfory'. Mae'r weledigaeth hon wedi'i gwreiddio'n gadarn ym mhob agwedd o waith yr ysgol.

Trwy ddisgwyliadau cyson a chytûn, mae arweinwyr a staff yn arddel gwerthoedd da ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau bod Ysgol Gynradd Gymraeg Tyle'r Ynn yn hafan ddiogel, gartrefol a chynhwysol i'r disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn adnabod anghenion y disgyblion, y staff a'r gymuned leol yn arbennig o dda. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod holl weithgareddau'r ysgol yn hygyrch i'r holl disgyblion.

Mae'r berthynas waith gynhaliol a chynnes sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff, sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth rhwng y naill a'r llall, yn gryfder amlwg. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu a safonau ymddygiad da iawn gan ddisgyblion o oedran cynnar. Rhinwedd nodedig yn narpariaeth gynhaliol yr ysgol yw'r berthynas hynod gadarn sydd gan yr ysgol â rhieni a'r gymuned ehangach.

### Ciplun 1: Partneriaeth gadarn â theuluoedd a'r gymuned i gefnogi lles a dysgu disgyblion

Mae'r ysgol wrth galon ei chymuned ac yn manteisio'n effeithiol ar yr ardal leol i gyfoethogi dysgu, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn ymweld â'r gamlas leol i gyflwyno straeon maent wedi'u hysgrifennu am y 'Tri Bili Bwch Gafr', tra bod disgyblion Blwyddyn 5 yn cryfhau eu dealltwriaeth o newidiadau dros amser yn yr ardal leol yn bwrpasol trwy drafod â thrigolion lleol. Mae'r profiadau buddiol hyn yn dwysáu eu hymwybyddiaeth o'r gymuned a'u rôl ynddi yn fwriadus. Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau cryf â theuluoedd trwy gynnig cyfleoedd gwerthfawr iddynt gefnogi addysg eu plant. Mae mentrau gwerthfawr fel 'Y Clwb Teulu' yn cynnig gweithgareddau creadigol, digidol a lles buddiol i rieni a phlant. Mae arweinwyr a staff yn annog disgyblion i gyfrannu'n gydwybodol at eu cymuned. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â chartref gofal lleol yn rheolaidd fel rhan o'r cysyniad 'Cariad yn ein Cymuned', ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn weithgar yn ardd gymunedol 'Tyfu yn y Tyle' yr ysgol, gan gynaeafu llysiau a'u defnyddio i baratoi bwyd ar gyfer eu teuluoedd. Mae'r mentrau hyn yn cryfhau'r cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned yn hynod effeithiol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi'i chydlynu'n effeithiol. Mae staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth yn amserol. Lle'n briodol, mae staff yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol ac yn olrhain cynnydd a lles disgyblion yn ofalus. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u targedau.

Mae staff yn cydgynllunio'n ddiwyd i ddarparu cwricwlwm cyfoethog, perthnasol a chyffrous, sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn ofalus ac yn adlewyrchu ei natur, ei chyd-destun lleol a'i lle o fewn Cymru a'r byd ehangach yn llwyddiannus. Mae'r profiadau ysgogol a ddarperir yn cymell disgyblion ac yn tanio eu chwilfrydedd naturiol o oedran cynnar yn grefftus. Mae staff yn ystyried syniadau a chwestiynau'r disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau dysgu diddorol sy'n ennyn eu diddordebau yn y themâu tymhorol yn effeithiol.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando yn bwrpasol, ac yn meithrin eu medrau llafar yn effeithiol trwy gyfranogi'n frwd mewn trafodaethau sy'n berthnasol iddynt. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn trafod ac yn adolygu cerddoriaeth gan gerddorion Cymreig adnabyddus yn feddylgar. Maent yn adeiladu ar y medrau hyn yn lwyddiannus dros amser, gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn mynegi barn yn aeddfed wrth drafod manteision ac anfanteision caniatáu defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin eu medrau darllen yn gynyddol gadarn sy'n eu cefnogi i ymchwilio i wybodaeth a chysyniadau mewn gweithgareddau dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae staff yn darparu cyfleoedd ystyrlon i gyfoethogi'r profiadau hyn, er enghraifft trwy gynnal gweithdy darllen gydag awdur adnabyddus a chyfleoedd i ddisgyblion Blwyddyn 6 gefnogi disgyblion Blwyddyn 1 gyda'u darllen. Mae hyn yn cryfhau ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu ac yn meithrin eu mwynhad o ddarllen yn fwriadus. Wrth i'w medrau aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus mewn ystod briodol o ffurfiau a dibenion yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu llythyrau perswadiol at drigolion Llansawel yn eu hannog i ailgylchu'n feddylgar.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol ac yn eu cymhwyso'n bwrpasol i ddatrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn defnyddio eu medrau mesur yn gynyddol hyderus i werthuso pa mor gynhwysol yw safle'r ysgol i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac yn rhannu eu canfyddiadau ac argymhellion synhwyrol gyda'r pennaeth trwy e-bost.

Elfen nodedig o'r ddarpariaeth yw'r modd y mae staff yn cynllunio profiadau ystyrlon a chyfoes i ddatblygu medrau digidol disgyblion mewn cyd-destunau perthnasol. Erbyn Blwyddyn 1 a 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod briodol o offer digidol ac apiau yn hyderus i greu animeiddiadau yn grefftus. Wrth iddynt wneud cynnydd yn eu medrau dros amser, maent yn meithrin eu medrau digidol ehangach yn hynod effeithiol. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio dyfeisiau codio yn hyderus i raglennu robotiaid ac maent yn dechrau arbrofi gyda deallusrwydd artiffisial yn fwriadus i ddod â chymeriadau chwedlonol yn fyw, er enghraifft.

Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol ac yn datblygu gweithgareddau dysgu ar gyflymder addas. Maent yn defnyddio holi treiddgar ac anogaeth amserol i gefnogi cynnydd disgyblion ac ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau yn fwriadus. Mae athrawon a chynorthwywyr yn teilwra gweithgareddau dysgu yn briodol i anghenion disgyblion ac yn eu cynnwys yn bwrpasol yn y broses o gynllunio'r dysgu. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut i gofnodi a chyflwyno eu gwaith, ac i drafod a gwella eu gwaith fel rhan annatod o'r dysgu.

Mae staff yn hybu'r Gymraeg a gwerthoedd Cymreig yn effeithiol. Maent yn fodelau rôl ieithyddol cadarn ac yn annog disgyblion i wneud defnydd pwrpasol a chywir o'r iaith fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. Maent yn ennyn a chynnal balchder disgyblion at ddiwylliant ac etifeddiaeth Cymru yn grefftus.

### Ciplun 2: Codi proffil y Gymraeg drwy weithgareddau cyfoes

Mae arweinwyr a staff yn rhoi blaenoriaeth glir i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u teuluoedd o fewn cyd-destun ble dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg yn gwbl naturiol. Trwy gynllunio ystod bwrpasol o weithgareddau creadigol, mae staff yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyd-destunau diddorol. Mae'r Cyngor Cymraeg Cŵl yn cynhyrchu rhaglen radio fisol, 'Tiwns y Tyle', sy'n cael ei rhannu gyda chymuned yr ysgol ac yn ehangach. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 5 yn arwain sesiynau anffurfiol yn y 'Caffi Cymraeg' i gefnogi rhieni a'u plant i ddysgu'r iaith, ac yn cynhyrchu adnoddau digidol pwrpasol lle maent yn modelu geirfa a phatrymau iaith defnyddiol yn rheolaidd. Mae hyn yn cryfhau ymgysylltiad rhieni â'r Gymraeg yn llwyddiannus ac yn cefnogi defnydd yr iaith y tu hwnt i'r ysgol yn fwriadus.

Ar draws y ddarpariaeth, mae staff yn creu amgylchedd ddysgu ddifyr y tu mewn a thu allan sy'n cymell brwdfrydedd a chwilfrydedd disgyblion. Maent yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn gyson, er enghraifft trwy greu arddangosfeydd o'u gwaith o amgylch yr ysgol, sy'n hyrwyddo eu lles a'u cymhelliant i ddysgu yn bwrpasol. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth 'Ysgol Goed' yn cefnogi disgyblion i ddatblygu ystod eang o fedrau trwy weithgareddau creadigol, corfforol a llesol bwriadus. Er enghraifft, mae disgyblion

Blwyddyn 2 yn cydweithio’n frwdfrydig i godi pebyll ac yn creu breichledi o ddeunyddiau naturiol yn ofalus.

Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant cadarnhaol sy’n hyrwyddo dysgu proffesiynol ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion staff a blaenoriaethau’r ysgol. Mae staff yn rhannu arferion effeithiol yn ddeallus. Mae hyn, er enghraifft, wedi cefnogi staff i gryfhau’r ddarpariaeth yn y dosbarth meithrin a derbyn i sicrhau bod cynllunio sy’n ymateb i ddiddordebau a dulliau dysgu disgyblion yn rhan annatod o’r ddarpariaeth barhaus. Trwy hyn, mae disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu cyfoethog ac yn meithrin eu medrau annibynnol yn effeithiol trwy chwarae a dysgu pwrpasol.

Mae arweinyddiaeth ar bob lefel wedi’i gwreiddio’n gadarn, sy’n caniatáu i staff feithrin eu medrau arwain yn effeithiol. Mae gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn rhan annatod o’u gwaith, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gytûn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. Mae’r trefniadau hunanwerthuso cadarn yn rhoi ystyriaeth gyson i farn disgyblion a rhieni ar agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio’r canfyddiadau hyn yn fwriadus i bennu blaenoriaethau cytûn a synhwyrol ar gyfer mireinio’r ddarpariaeth a chodi safonau dros amser.

Mae’r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol a’i chymuned yn dda iawn ac yn gweithredu’n eiriolwyr cryf drosti. Maent yn defnyddio eu harbenigeddau amrywiol yn gydwybodol i ddarparu cydbwysedd ystyriol o gymorth a her i’r pennaeth. Maent yn cyfrannu’n fuddiol at drefniadau cefnogi gwelliant, er enghraifft wrth gydweithio ag arweinwyr i gryfhau dulliau o wella presenoldeb disgyblion. Er bod arweinwyr yn ymdrechu’n barhaus i ymgysylltu â theuluoedd gyda chefnogaeth bwriadus y swyddog lles, mae absenoldeb ychydig o ddisgyblion yn parhau i fod yn rhy uchel.

Fel rhan o waith naturiol yr ysgol, mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch at, a meithrin dealltwriaeth gadarn o, safbwyntiau a gwerthoedd pobl eraill.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2026